



TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

Achos Rhif: TyG/2024/02

Steffan Bryn
(Ceisydd)

v.

COMISIYNYDD Y GYMRAEG
(Atebydd)

PENDERFYNIAD

AELODAU'R PANEL

Betsan Criddle CB (Llywydd y Tribiwnlys)

H Eifion Jones

Sara Peacock

GWRANDAWIAD

21 Mawrth 2025

Gwrandawriad rhithiol ar MS Teams

CYNRYCHIOLAETH

Cynrychiolodd yr Ymgeisydd ei hun.

DEUNYDD A YSTYRIWYD GAN YR TRIBIWNLYS

Gweler Atodiad i'r dyfarniad hwn.

NATUR Y CAIS

Cais o dan adran 103 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 am adolygiad o benderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn gan yr Ymgeisydd am fethiant awdurdod lleol i gydymffurfio â Safon Iaith Gymraeg.



WELSH LANGUAGE TRIBUNAL

Case No: WLT/2024/02

Steffan Bryn
(Applicant)

v.

WELSH LANGUAGE COMMISSIONER
(Respondent)

DECISION

MEMBERS OF THE PANEL

Betsan Criddle KC (President of the Tribunal)

H Eifion Jones

Sara Peacock

HEARING

21 March 2025

Remote hearing by MS Teams

REPRESENTATION

The Applicant represented himself.

MATERIAL CONSIDERED BY THE TRIBUNAL

See Appendix to this judgment.

NATURE OF THE APPLICATION

An application under section 103 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 for a review of a decision by the Commissioner not to carry out an investigation into a complaint by the Applicant of

PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS

Mae'r Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i'r cais fynd ymlaen ar sail:

- a) Byddai gan y cais obaith rhesymol o lwyddiant, ac
- b) Mae yna ryw reswm cymhellol arall pam y dylid clywed y cais.

RHESYMAU

1. Ar y 4ydd o Orffennaf 2024, cyflwynodd yr Ymgeisydd, Mr Bryn, gŵyn i Gomisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') yn honni bod Cyngor Caerdydd ('y Cyngor') wedi methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'i weithrediad a wasanaeth Rhentu Doeth Cymru ('RhDC'), y mae'n 'gyfrifol' amdano yn ôl y Comisiynydd. Yn berthnasol at ddibenion y cais hwn, roedd seiliau'r gwyn (naill ai'n wreiddiol neu drwy ddiwygiad diweddarach) yn cynnwys cwyn am (i) fethiant y Cyngor i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb a rhithiol cyfrwng Cymraeg i unigolion sy'n ceisio trwydded landlord ('y gŵyn hyfforddiant'); a (ii) gwasanaeth ffôn y Cyngor mewn perthynas â gwasanaeth RhDC ("y gŵyn ffôn").
2. Trwy benderfyniad dyddiedig 12fed o Dachwedd 2024, penderfynodd y Comisiynydd agor ymchwiliad i'r gŵyn ffôn. Mewn perthynas â'r gŵyn hyfforddiant, penderfynodd beidio ag agor ymchwiliad ac yn hytrach rhoddodd gyngor i'r Cyngor. Yr ail benderfyniad yw testun y cais hwn.

a failure by a local authority to comply with a Welsh Language Standard.

THE TRIBUNAL'S DECISION

The Tribunal grants permission for the application to proceed on the basis that:

- a) The application would have a reasonable prospect of success, and
- b) There is some other compelling reason why the application should be heard.

REASONS

1. On 4 July 2024, the Applicant, Mr Bryn, presented a complaint to the Welsh Language Commissioner ('the Commissioner') claiming that Cardiff Council ('the Council') had failed to comply with the Welsh Language Standards in relation to its operation of the Rent Smart Wales ('RSW') service, for which it is described by the Commissioner as being 'responsible'. Relevantly for the purposes of this application, the grounds (either originally or by later amendment) included a complaint about (i) the Council's failure to provide Welsh medium face to face and virtual training for individuals seeking a landlord licence ('the training complaint'); and (ii) the Council's telephone service in respect of the RSW service ('the telephone complaint').
2. By a decision dated 12 November 2024, the Commissioner decided to open an investigation into the telephone complaint. In respect of the training complaint, she decided

3. Mae penderfyniad y Comisiynydd yn cofnodi bod ymateb y Cyngor i'r gŵyn hyfforddi fel a ganlyn¹:

O ganlyniad i'ch cwyn eu bod bellach wedi hysbysebu cwrs rhithiol ystafell ddosbarth i landlordiaid newydd yn y Gymraeg ym mis Hydref eleni ac mae cwrs yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2025. Mae ganddynt nawr aelod o staff sydd yn gallu cynnal cyrsiau yn y Gymraeg, ac y bydden nhw'n cynnal cyrsiau pellach yn y Gymraeg yn ôl y galw.

4. Rhoddir ei rhesymau dros beidio ag agor ymchwiliad i'r gŵyn hyfforddi fel a ganlyn:

Rydym wedi penderfynu na fyddwn yn cynnal ymchwiliad i elfennau eraill y gŵyn.

Diben cynnal ymchwiliad yw dod i farn ar y cwestiwn a fu methiant i gydymffurfio â safon a'n galluogi i orfodi sefydliad i newid ei ymddygiad os oes angen. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi cydnabod nad oedden nhw wedi bod yn darparu hyfforddiant ystafell ddosbarth yn y Gymraeg ac wedi cymryd camau i hysbysebu cyrsiau ystafell ddosbarth rhithiol ers derbyn eich cwyn. Rydym yn

not to open an investigation and instead gave advice to the Council. The latter decision is the subject of this application.

3. The Commissioner's decision records that the Council's response to the training complaint was as follows²:

In consequence of your complaint, they have since advertised a virtual classroom course for new landlords in Welsh in October this year, and the course will be held in April 2025. They now have a member of staff who can hold Welsh language courses, and they will hold further courses in Welsh according to demand.

4. Her reasons for not opening an investigation into the training complaint are given as follows:

We have decided that we will not conduct an investigation into the other elements of the complaint.

The purpose of holding an investigation is to come to a view on the issue of whether there has been a failure to comply with a standard and to enable us to require an organisation to change its behaviour if required. In this case, the Council has acknowledged that it had not provided

¹ Dylid nodi mai dim ond fersiwn Gymraeg o'r llythyr canlyniad a ddarparwyd i'r Tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlys wedi cyfieithu'r llythyr Cymraeg gwreiddiol i'r Saesneg at ddibenion fersiwn Saesneg y penderfyniad hwn. Os oes fersiwn Saesneg o'r llythyr, mae hynny, wrth gwrs, yn awdurdodol o ran y penderfyniad a gyfathrebwyd i'r Ymgeisydd. Nid oedd y Tribiwnlys o'r farn bod y penderfyniad yn ddibynol ar weld unrhyw fersiwn Saesneg o'r llythyr.

² It should be noted that the Tribunal was only provided with a Welsh language version of the outcome letter. The Tribunal has translated the original Welsh letter into English for the purposes of the English language version of this decision. If there is an English language version of the letter, that is, of course, authoritative as to the decision communicated to the Applicant. The Tribunal did not consider that anything turned on not having seen any English language version of the letter at this stage.

fodlon, yn yr achos yma, fod cynnig cyrsiau ystafell ddosbarth rhithiol yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswydd yn unol â gofynion y safonu (sic)...

Nid oes angen cymryd camau felly i orfodi i'r sefydliad i newid ei ymddygiad gan ei fod eisoes wedi cydnabod ei fethiant ac wedi neu yn mynd i gymryd camau o'r wirfodd i ddatrys y sefyllfa. Nid ydym o'r farn y byddai cynnal ymchwiliad yn dod â budd i ddefnyddwyr yr iaith yn ychwanegol i'r hyn mae'r Cyngor yn barod wedi ei ymrwymo i'w gyflawni. Byddai cynnal ymchwiliad yn yr amgylchiadau felly yn ddefnydd anghymesur o'n hadnoddau.

5. Hysbysodd y Comisiynydd yr Ymgeisydd y byddai'r Cyngor yn cael cyngor yn unol â'i phwerau o dan adran 4(j) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') y dylai, yn berthnasol, gael trefniant parhaol y dylid cynnig cyrsiau hyfforddi rhithiol ar gyfer landlordiaid newydd o bryd i'w gilydd fel mater o drefn. Mae'r Ymgeisydd yn nodi nad oedd y Comisiynydd, mewn perthynas â'r cyngor hwn, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi gwybodaeth iddi ar ei gynnydd, a hynny'n wahanol i'r hyn a ofynodd amdano mewn cysylltiad ag agweddau eraill ar y gŵyn.

Y CAIS I'R TRIBIWNLYS

6. Ar yr 17eg o Dachwedd 2024, cyflwynodd yr Ymgeisydd ei gais i'r Tribiwnlys hwn o dan adran 103 o'r Mesur, gan gwyno am fethiant y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad i'r gŵyn hyfforddi. Rhoddwyd y seiliau fel a ganlyn:

classroom training in Welsh, and it has taken steps to advertise virtual classroom courses since receiving your complaint. We are satisfied in this case that offering virtual classroom courses enables the Council to comply with its duty in accordance with the standards...

There is no need to take steps therefore to require the organisation to change its behaviour as it has already acknowledged its failure and has taken, or will take, voluntary steps to resolve the situation. We do not consider that conducting an investigation would bring additional benefit to users of the language over and above that which the Council has already committed to undertake. To conduct an investigation in these circumstances would be a disproportionate use of our resources.

5. The Commissioner informed the Applicant that the Council would be given advice in accordance with her powers under section 4(j) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 ('the Measure') that it should, relevantly, have a permanent arrangement that virtual training courses for new landlords be offered periodically as a matter of course. The Applicant points out that the Commissioner did not, in respect of this advice, require the Council to provide her with any update on its progress, unlike in respect of other advice she gave in connection with other aspects of the complaint.

THE APPLICATION TO THE TRIBUNAL

- a. Nid oedd addewid y Cyngor i gynnal cwrs rhithiol ym mis Ebrill 2025 yn ddigonol yng nghyd-destun cwyn a wnaed ym mis Gorffennaf 2024 ac o ystyried y cyfnod o 8 wythnos i landlord gwblhau'r hyfforddiant a phasio'r arholiad perthnasol.
 - b. Nid oedd yn rhesymol i'r Comisiynydd ddod i'r casgliad bod triniaeth gyfatebol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg pan y cynigir cyrsiau Saesneg wyneb yn wyneb ac yn rhithiol ac roedd y cwrs Cymraeg arfaethedig yn rhithiol yn unig.
 - c. Roedd y Comisiynydd wedi methu â delio âg ystod llawn ei gŵyn am y Cyngor. Roedd hi wedi ystyried y gŵyn am hyfforddiant sylfaenol i landlordiaid yn unig ac nid oedd wedi ystyried y ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â chysiau arbenigol a chysiau pellach. Roedd y Comisiynydd hefyd wedi methu â delio â'i gŵyn am y wefan a'r ffaith ei bod yn angenrheidiol mewn rhai achosion ffonio neu e-bostio i archebu cwrs Cymraeg pan oedd modd archebu cwrs Saesneg ar-lein ac nad oedd yn glir, yn achos cyrsiau a gynigir yn y ddwy iaith, beth oedd iaith y cwrs oedd yn cael ei archebu.
 - d. Nid oedd ymateb y Comisiynydd yn awgrymu bod ystyriaeth wedi cael ei roi i ystyriaeth a oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau 84 ac 86 i
6. On 17 November 2024, the Applicant presented his application to this Tribunal under section 103 of the Measure, complaining of the Commissioner's failure to conduct an investigation into the training complaint. The grounds were given as follows:
 - a. The Council's promise to hold a virtual course in April 2025 was insufficient in the context of a complaint made in July 2024 and having regard to the 8-week period for a landlord to complete the training and pass the relevant exam.
 - b. It was not reasonable for the Commissioner to conclude that there was equivalence of treatment between Welsh and English when English courses are offered face to face and virtually and the proposed Welsh course was virtual only.
 - c. The Commissioner had failed to deal with the full scope of his complaint about the Council. She had only considered the complaint about basic training for landlords and had not considered the provision made in respect of specialist and further courses. The Commissioner had also failed to deal with his complaint about the website and the fact that it was necessary in some cases to phone or e-mail to book a Welsh language course when an English language course could be booked online and that it was not clear, in the case of courses offered

asesu'r angen am gwrs addysgol i'w ddarparu yn y Gymraeg.

7. Ar y 10fed o Ragfyr 2024, daeth y cais gerbron y Tribiwnlys pan wrthodwyd caniatâd ar bapur ar y sail bod penderfyniad y Comisiynydd i roi cyngor yn argymhell bod y Cyngor yn cael trefniant parhaus bod cyrsiau hyfforddiant ystafell ddosbarth rhithiol ar gyfer landlordiaid newydd yn cael eu hysbysebu yn gofnodol o fewn ei disgresiwn yn y mater hwn. Gwrthododd y Tribiwnlys y ddadl bod y penderfyniad yn anghywir ac yn ddiffygiol oherwydd ei fod yn rhy gyfyngedig am y rhesymau a roddwyd gan y Comisiynydd yn ei llythyr dyddiedig yr 12eg o Dachwedd 2024.
8. Trwy lythyr heb ddyddiad, ond a dderbyniwyd gan y Tribiwnlys ar y 24ain o Ragfyr 2024, arferodd yr Ymgeisydd ei hawl o dan reol 16(8) o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg ('y Rheolau') 2015 i fynnu bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried gan banel tribiwnlys mewn gwrandawriad.
9. Ar yr 17eg o Fawrth 2025, cyflwynodd yr Ymgeisydd ddadl ysgrifenedig i'r Tribiwnlys i'w hystyried yn y gwrandawriad o'i gais ailystyried. Yn y ddadl honno, crynhowyd seiliau'r gŵyn fel a ganlyn:

- a. Roedd yn gamgymeriad cyfreithiol i'r Comisiynydd (i) seilio ei phenderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad ar addewid y Cyngor i gynnal cyrsiau hyfforddi Cymraeg yn unol â'r galw; a (ii) i awgrymu i'r Cyngor, trwy ei chyngor, fod ganddo

in both languages, which was the language of the course being booked.

- d. The Commissioner's response did not suggest that consideration had been given to whether the Council had complied with standards 84 and 86 to assess the need for an educational course to be provided in Welsh.
7. On 10 December 2024, the application came before the Tribunal on the papers when permission was refused on the basis that the Commissioner's decision to give advice recommending that the Council put in place a permanent process that virtual classroom training for new landlords should be advertised periodically as a matter of course was within her discretion in this matter. The Tribunal rejected the argument that the decision was incorrect and defective because it was too limited for the reasons given by the Commissioner in her letter of 12 November 2024.
8. By undated letter, but received by the Tribunal on 24 December 2024, the Applicant exercised his right under rule 16(8) of the Welsh Language Tribunal Rules ('the Rules') 2015 to require that the decision be reconsidered by a tribunal panel at a hearing.
9. On 17 March 2025, the Applicant presented written submissions to the Tribunal for consideration at the hearing of his reconsideration application. In those submissions, the grounds of complaint were summarised as follows:

ddisgresiwn i beidio â chynnig cyrsiau Cymraeg yn yr amgylchiadau.

- b. Roedd y Comisiynydd wedi camddehongli Safon 84 wrth ddod i'r casgliad bod y ddarpariaeth rhithiol yn unig o gyrsiau hyfforddiant Cymraeg yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i rwymedigaethau, pan fo cyrsiau Saesneg yn cael eu cynnig wyneb yn wyneb ac yn rhithiol, ac i ddibynnu ar y camddehongliad hwnnw fel rhan o'i chyfiawnhad dros beidio ag agor ymchwiliad.
- c. Ymhellach ac fel arall, bod penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag agor ymchwiliad yn cynnwys dehongliad afresymol o Safon 84 a heb ystyried yr egwyddorion cyffredinol a'r darpariaethau penodol a wnaed gan Gôd Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ('y Côd').
- d. Roedd y Comisiynydd wedi methu â dod i gasgliad rhesymol, yn gyson â pholisi ac amcanion y Mesur ynghylch gwir effaith a chanlyniadau ei phenderfyniad i roi cyngor, yn hytrach na chynnal ymchwiliad, ar ddefnyddwyr y Gymraeg.

CYFRAITH BERTHNASOL

AWDURDODAETH A GWEITHDREFN

- 10. Cwmpas awdurdodaeth y Tribiwnlys a dan adran 103(5) y Mesur yw adolygu

- a. It was an error of law for the Commissioner to (i) base her decision not to open an investigation on the Council's promise to hold Welsh training courses in accordance with demand; and (ii) suggest to the Council, by her advice, that it had discretion not to offer Welsh courses in the circumstances.
- b. The Commissioner had misinterpreted standard 84 in concluding that the virtual only provision of Welsh language training courses enabled the Council to comply with its obligations, when English language courses were offered face to face and virtually and to rely on that misinterpretation as part of her justification for not opening an investigation.
- c. Further and alternatively, that the Commissioner's decision not to open an investigation involved an unreasonable interpretation of standard 84 and without considering the general principles and specific provisions made by the Code of Practice for the Welsh Language Standards (No 1) Regulations 2015 ('the Code').
- d. The Commissioner had failed to come to a reasonable conclusion, consistent with the policy and objectives of the Measure as to the true effect and outcomes of her decision to give

penderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad pan fo'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig yn berthnasol.

11. Mae'r ddyletswydd yn adran 93 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad a yw ymddygiad person yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon os yw person yn gwneud cwyn i'r Comisiynydd am yr ymddygiad hwnnw ac fod y gŵyn yn ddilys.
12. Pan fydd y Tribiwnlys yn derbyn hysbysiad o gais sy'n cynnwys cais am adolygiad o dan adran 103 y Mesur, nid yw hynny'n cael ei drin fel pe bai'n cael ei dderbyn nes bod y Tribiwnlys wedi penderfynu y byddai ganddo obaith rhesymol o lwyddo, neu fod rhyw reswm cymhellol arall pam y dylid clywed y cais (rheol 16(1) o'r Rheolau).
13. Os nad yw'r Tribiwnlys o'r farn bod paragraff 1(a) neu 1(b) yn berthnasol, rhaid iddo wrthod caniatâd ar gyfer y cais, ac ni fydd yn cael ei ystyried ymhellach (rheol 16(3) o'r Rheolau).
14. Os gwrthodwyd caniatâd i wneud cais o dan baragraff (3), caiff yr ymgeisydd ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniad gael ei ailystyried gan banel tribiwnlys mewn gwrandawriad (rheol 16(8) o'r Rheolau).
15. Mae Rheol 26 o'r Rheolau yn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys wneud cyfarwyddiadau rheoli i achosion.

advice, rather than conduct an investigation, on users of the Welsh language.

RELEVANT LAW

JURISDICTION AND PROCEDURE

10. The scope of the Tribunal's jurisdiction by section 103(5) of the Measure is to review a decision of the Commissioner not to carry out an investigation where the duty under section 93 to consider whether to carry out an investigation of the alleged conduct applies.
11. The duty in section 93 of the Measure requires the Commissioner to consider whether to carry out an investigation of whether the conduct of a person amounts to a failure to comply with a standard if a person makes a complaint to the Commissioner about that conduct and the complaint is valid.
12. When the Tribunal receives notice of an application which includes an application for a review under section 103 of the Measure, that is not to be treated as having been received until the Tribunal has decided that it would have a reasonable prospect of success, or there is some other compelling reason why the application should be heard (rule 16(1) of the Rules).
13. If the Tribunal does not consider that either paragraph 1(a) or 1(b) applies, it must refuse permission for the application, and it will not be considered further (rule 16(3) of the Rules).

16. Rhaid i'r Tribiwnlys, drwy reol 3 o'r Rheolau, roi effaith i'w amcan pennaf i ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Rheolau. Mae delio ag achosion yn deg ac yn gyfiawn yn cynnwys delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur â phwysigrwydd yr achos a chymhlethdod y materion, ac osgoi ffurfioldeb diangen cyn belled ag y mae'r Tribiwnlys yn ei ystyried yn briodol.

SAFONAU

17. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau a ragnodir gan baragraff 1 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) ('y Rheoliadau') 2015. Mae Safonau 84 ac 86 yn darparu:

84. *Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi ei gynnig yn Gymraeg.*

86. *Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid i chi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.*

18. Ym mis Chwefror 2020, crewyd y Côd gan y Comisiynydd, sy'n rhoi canllawiau ymarferol ynghylch gofynion safonau'r Gymraeg ar gyfer

14. If permission to make an application has been refused under paragraph (3), the applicant may require that the decision be reconsidered by a tribunal panel at a hearing (rule 16(8) of the Rules).

15. Rule 26 of the Rules confers a power on the Tribunal to make case management directions.

16. The Tribunal must, by rule 3 of the Rules, give effect to its overriding objective to deal with cases fairly and justly when exercising any function under the Rules. Dealing with cases fairly and justly includes dealing with the case in ways which are proportionate to the importance of the case and the complexity of the issues, and avoiding unnecessary formality as far as the Tribunal considers appropriate.

STANDARDS

17. The Council is required to comply with the service delivery standards prescribed by paragraph 1 of the Welsh Language Standards (No 1) Regulations ('the Regulations') 2015. Standards 84 and 86 provide that:

84. *If you offer an education course that is open to the public, you must offer it in Welsh.*

86. *If you develop an education course that is to be offered to the public, you must assess the needs for that course to be offered in Welsh; and you must ensure that the assessment is published on your website.*

sefydliadau sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae'r Còd yn darparu:

1.16 *Nid yw methiant corff i gydymffurfio â darpariaeth yn y cod hwn yn peri i'r corff hwnnw fod yn agored i unrhyw gamau gorfodi. Ni ddylid ystyried y cod hwn yn ddatganiad cyflawn neu awdurdodol o'r gyfraith. Dim ond Tribiwnlys y Gymraeg a'r llysoedd sy'n gallu rhoi datganiad awdurdodol o'r ddeddfwriaeth a gall penderfyniadau barnwrol dilynol effeithio ar gynnwys y cod.*

1.17 *Fodd bynnag, os yw'r Comisiynydd yn dymuno hynny, fe all ddibynnu ar fethiant corff i gydymffurfio â chanllawiau o fewn y cod hwn fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau bod y corff wedi methu â chydymffurfio â safon.*

19. Mae'r Còd yn darparu canllawiau ynghylch yr hyn y mae'r Comisiynydd yn ei ystyried yn gydymffurfieath â Safonau 84-86 ym mharagraffau 4.20.1-4.20.21. O berthnasedd arbennig i'r cais presennol yw'r darpariaethau canlynol:

4.20.8 *Mae 'cynnig' cwrs addysg yn cynnwys corff yn hysbysu (er enghraifft, mewn prospectws neu ar wefan) bod cwrs addysg ar gael, y bydd yn cael ei*

18. In February 2020, the Commissioner created the Code, which gives practical guidance as to the requirements of the Welsh language standards for organisations required to comply with the Regulations. The Code provides that:

1.16 *A body's failure to comply with a provision within this code does not render that body liable to any enforcement action. This code should not be considered a complete nor authoritative declaration of the law. Only the Welsh Language Tribunal and courts are able to provide an authoritative declaration of legislation and subsequent judicial decisions may affect the content of this code.*

1.17 *However, should the Commissioner wish so, it may rely upon a failure by a body to comply with guidelines within this code as something which tends to establish that the body has failed to comply with a standard.*

19. The Code provides guidance as to what the Commissioner considers to be compliance with standards 84-86 at paragraphs 4.20.1-4.20.21. Of particular relevance to the present application are the following provisions:

4.20.8 *To 'offer' and education course includes making it known (for example, in a prospectus or on a*

ddarparu yn Gymraeg, a bod modd i bersonau fynychu neu ymgeisio am le neu gofrestru ar y cwrs addysg hwnnw os ydynt yn dymuno.

website) that an education course is available and will be delivered in Welsh, and that persons can attend or apply for a place or enrol on the education course if they so wish.

4.20.11 *Nid oes rhaid i gorff ddarparu cwrs yn Gymraeg yn yr un lleoliad â chwrs a ddarperir drwy gyfrwng t Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiynydd yn ystyried y dylai person orfod teithio pellter ychwangeol er mwyn mynd ar gwrs a ddarperir yn Gymraeg o'i gymharu â chwrs cyfatebol Saesneg...*

4.20.11 *A body does not have to deliver a course in Welsh in the same setting as a course delivered in English. However, the Commissioner does not consider that a person should have to travel further in order to attend a course in Welsh compared with the distance travelled for the course in English...*

4.20.14 *... disgwylir i gorff sicrhau bod nifer ddigonol o gyrsiau Cymraeg ar gael a fyddai'n sicrhau na fydd unrhyw berson o dan anfantais os yw'n penderfynu mynychu cwrs Cymraeg yn hytrach na chwrs Saesneg.*

4.20.14 *...a body is expected to ensure that there are a sufficient number of Welsh language courses available which would ensure that nobody is at a disadvantage if they choose to attend a course in Welsh rather than a course in English.*

4.20.15 *... Rhaid i gorff gynnig cwrs ar bob lefel lle gwneir hynny yn Saesneg. Mae gofynion y safon yn golygu bod rhaid i unrhyw gwrs a gynigir gan gorff*

4.20.15 *...A body must deliver a course at all levels if that is done in English. The requirements of the standard mean that any*

*gael ei gynnig yn
Gymraeg.*

*course offered by a body
must be offered in Welsh.*

20. Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at ddiben rôl y Comisiynydd. Mae adran 3 o'r Mesur yn nodi prif nodau'r Comisiynydd, sy'n cynnwys (yn adran 3(3)(c)) bod yn rhaid iddi roi sylw i'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg yng Nghymru.

21. Cyfeiriodd yr Ymgeisydd hefyd at benderfyniadau blaenorol y Tribiwnlys yn:

21.1 Powell v Comisiynydd y Gymraeg (Achos Rhif TyG/WLT/16/8) sy'n nodi'r egwyddorion sy'n berthnasol i gais o dan adran 103 o'r Mesur ym mharagraff 14.

21.2 Powell v Comisiynydd y Gymraeg (Achos Rhif TyG/WLT/17/2), lle dyfarnodd y Tribiwnlys (ym mharagraffau 13-15), gan ddibynnu ar y penderfyniad yn R (Fleet Maritime Services (Bermuda) Ltd) v The Pensions Regulator [2015] EWHC 3744 (Admin), nad yw dehongli'r safonau yn fater o ddisgresiwn y Comisiynydd. Wrth gymhwyso safonau unigol, fodd bynnag, ni all y Tribiwnlys ymyrryd â dyfarniad gwerthuso gan y Comisiynydd, megis a fu triniaeth llai ffafriol o'r iaith Gymraeg o'i gymharu â'r iaith Saesneg, ar yr amod ei fod yn cael ei arfer o fewn y paramedrau cyfreithiol a sefydlwyd gan y Mesur a'r Rheoliadau.

20. The Applicant made reference to the purpose of the Commissioner's role. Section 3 of the Measure sets out the Commissioner's principal aims, which include (at section 3(3)(c)) that she must have regard to the principle that, in Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language.

21. The Applicant also made reference to the Tribunal's previous decisions in:

21.1 Powell v Welsh Language Commissioner (Case No. TyG/WLT/16/8) which sets out the principles relevant to an application under section 103 of the Measure at paragraph 14.

21.2 Powell v Welsh Language Commissioner (Case No. TyG/WLT/17/2), in which the Tribunal held (at paragraphs 13-15), relying on the decision in R (Fleet Maritime Services (Bermuda) Ltd) v The Pensions Regulator [2015] EWHC 3744 (Admin), that the interpretation of the standards is not a matter for the Commissioner's discretion. In the application of individual standards, however, an evaluative judgement by the Commissioner, such as whether there has been less favourable treatment of the Welsh language compared to the English language, cannot be interfered with by the Tribunal, provided that it is exercised within the legal parameters established by the Measure and the Regulations.

21.3 Powell v Comisiynydd y Gymraeg
(Achos Rhif WLT/23/02) sy'n ystyried y
gydberthynas rhwng safonau 84 ac 86.

CYFANSODDIAD Y PANEL

22. Ar ddechrau'r gwrandawriad, tynnodd y panel sylw'r Ymgeisydd bod un o'i aelodau, Ms Peacock, yn credu ei bod wedi delio ag ef tua saith mlynedd yn ôl mewn perthynas â digwyddiad panel yn yr Eisteddfod. Roedd yr Ymgeisydd wedi bod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad panel ar ran ei gyflogwr, ac roedd Ms Peacock wedi cysylltu ag ef yn hynny o beth gan ei bod hefyd wedi bod yn aelod o'r panel yn siarad yn y digwyddiad. Gofynnodd ni i'r Ymgeisydd a oedd yn fodlon i Ms Peacock barhau i glywed ei gais a chadarnhaodd ei fod yn fodlon iddi wneud hynny.

Y DDADL GERBRON Y TRIBIWNLYS

23. Gofynnodd y panel i'r Ymgeisydd a oedd yn dwyn ei gais ar sail y seiliau yn ei gais, y rhai a nodwyd yn ei gais ailystyried, neu'r rhai a nodwyd yn ei ddadl ysgrifenedig i'r Tribiwnlys, gan fod pob set o seiliau wedi'i fynegi mewn termau gwahanol. Dywedodd mai'r sail dros ei gais oedd y rhai a nodwyd yn ei ddadl ysgrifenedig ar dudalen 73 o fwndel y Tribiwnlys.

24. Eglurodd y Tribiwnlys i'r Ymgeisydd y byddai angen ystyried a ddylid rhoi caniatâd iddo ddiwygio seiliau ei gais a gofynnodd i'r Ymgeisydd esbonio'r sail yr oedd yn gwneud y cais hwnnw. Dywedodd fod ei ddadl ysgrifenedig yn gynnwys myfyrion ar ei gais, a

21.3 Powell v Welsh Language Commissioner (Case No. WLT/23/02)
which considers the interrelationship
between standards 84 and 86.

PANEL COMPOSITION

22. At the outset of the hearing, the panel drew to the Applicant's attention that one of its members, Ms Peacock, believed that she had had dealings with him approximately seven years ago in relation to a panel event at the Eisteddfod. The Applicant had been responsible for organising the panel event on behalf of his employer, and Ms Peacock had liaised with him in that regard as she had also been a member of the panel speaking at the event. We asked the Applicant whether he was content for Ms Peacock to continue to hear his application and he confirmed that he was content for her to do so.

THE ARGUMENT BEFORE THE TRIBUNAL

23. The panel asked the Applicant whether he was pursuing his application on the basis of the grounds set out in his application, those set out in his reconsideration application, or those set out in his written submissions to the Tribunal, as each set of grounds was expressed in different terms. He said that the grounds for his application were those set out in his written submissions at page 73 of the Tribunal's bundle.

24. The Tribunal explained to the Applicant that it would need to consider whether he should be

chynnal ymchwil bellach, gan gynnwys mewn perthynas â'r Côd nad oedd wedi bod yn ymwybodol ohono pan wnaeth ei gais gwreiddiol. Dywedodd ei fod yn credu bod y Tribiwnlys yn gofyn am ddadl ysgrifenedig wedi ei wahodd i ganolbwyntio ar ei gais a gweld a ellid ei fireinio. Yn olaf, dywedodd nad oedd yn credu bod ei gyflwyniadau ysgrifenedig mor wahanol a hynny i'r seiliau yn ei gais.

25. Eglurodd yr Ymgeisydd i'r Tribiwnlys fod yn ofynnol iddo, fel landlord yng Nghymru, gael ei gofrestru a'i drwyddedu gyda RhDC. Er mwyn cael trwydded, rhaid i landlord gael ei hyfforddi'n briodol yn ei hawliau a'u rhwymedigaethau. Y cyngor a roddir i landlordiaid yw y dylent ymgymryd â'r hyfforddiant cyn sefyll arholiad y drwydded, a disgwylir i'r hyfforddiant gymryd wyth wythnos. Gellir cynnal hyfforddiant gyda RhDC neu ddarparwr hyfforddiant cymeradwyo arall. Mae RhDC yn darparu hyfforddiant trwy (i) hunan-astudio (darllen testun ar-lein yn amser yr ymgeisydd ei hun; (ii) hyfforddiant dosbarth rhithiol ar-lein; a (iii) hyfforddiant ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb.
26. Datblygodd yr Ymgeisydd ei ddadl lafar drwy gyfeirio at y pedwar sail a nodir yn ei gyflwyniadau ysgrifenedig fel a ganlyn:

26.1 Sail 1: Dadleuodd yr Ymgeisydd mai'r rhwymedigaeth o dan Safon 84 yw cynnig cwrs oni bai bod asesiad o dan Safon 86 wedi bod nad oes angen darparu'r cwrs yn Gymraeg. Roedd y Comisiynydd

